# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 14.12.16 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Geraint Edwards (Cadeirydd), Dylan Thomas, Huw Davies, Ian Williams, Eleri Williams, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Micah, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Karen Shellis, Avril Garrod.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 09.11.16 fel rhai cywir.
   **Cynnig –** Keith Carroll **Eilio –** Huw Davies **Arwyddwyd –** Geraint Edwards.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (09.11.16):**
   1. **Materion Cymunedol**
      - **a)** Dwr ar Ffordd Llabwst – Rhoslefain – Cyngor Gwynedd yn cydnabod fod angen agor ffosydd at y cylfert.
      - **b)** Cerrig ar ochr y ffordd – Rhoslefain – Arolygwr Cyngor Gwynedd yn parhau i asesu'r sefyllfa.

   2. **Hysbysfwrdd Newydd yn Llwyngwril -** polion wedi cael eu gosod yn barod i roi'r hysbysfwrdd i fyny.
   **Penderfyniad** ➞ gofyn i seiri coed lleol os oes ganddynt ddiddordeb i wneud y ffrâm mewn pren caled ?

5. **Gohebiaeth:**
   - **a)** Llythyr o ddiolch wedi ei dderbyn gan y "Poppy Appeal" (British Legion ) am y rhodd = £25.00.
   - **b)** Llythyr o ddiolch wedi ei dderbyn gan Marie Curie, Cymru, am y rhodd = £50.00.
   - **c)** Llythyr gan y Groes Goch Brydeinig yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at yr apêl leol -
     **Penderfyniad** ➞ pawb yn gytûn i gyfrannu = £25.00. **Cynnig:** Dylan Thomas **Eilio:** Ian Williams.
   - **d)** Gwahoddiad i Arddwest Palas Buckingham - Mis Mai/Mehefin 2016 ➞ Keith Carroll.

   **Cyngor Gwynedd:**
   - **a)** Gwybodaeth ynglŷn ag Etholiadau Cyngor Cymuned 2017.
   - **b)** Gwahoddiad i gyflwyniad gan y Comisiwn Ffiniau, ar y 14.02.17, ynglŷn ag Arolygon Etholiadau Gwynedd.
   - **c)** Gwybodaeth ynglŷn â newid yn nhrefniant ad-daliad costau cynnal llwybrau cyhoeddus.
   - **d)** Holiadur Cynnal Llwybrau (cynghorau cymuned) i'w gwblhau.
   - **e)** **Biniau Halen** – cadarnhau'r gost o lenwi pob bin yn y gymuned cyn y gaeaf: **£40.00 y bin** (cychwyn Haf 2017)
     - ail-lenwi bin ar gais y gymuned yn ystod y gaeaf: **£60.00 y bin** (01/10 – 30/04).
     - Rhaid i unrhyw gais am lenwi bin/iau halen yn ystod y gaeaf dderbyn sylw y chymeradwyaeth y Cyngor Cymuned/Clerc a'i drefnu gyda'r Swyddog Cyswllt.

6. **Materion Cynllunio**: Dim

7. **Adroddiad Ariannol**: Derbyniwyd Adroddiad Mis Tachwedd yn gywir.
**Cynnig –** Kevin Goodchild **Eilio –** Ian Williams **Arwyddwyd –** Geraint Edwards.

- Anfoneb gan Gyngor Gwynedd am dorri gwair y Cae Chwarae am y flwyddyn 2016 = £557.11
- Anfoneb gan G. Micah am dorri gwair y Cof Golofn, Mynwent y Crynwyr a'r llwybrau = £522.00
- Anfoneb gan G. Micah am y Goeden Nadolig i Roslefain = £90.00
- Rhodd blynyddol i Ambiwlans Awyr Cymru = £250.00

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:**
   - **Un Llais Cymru** - Dylan Thomas a Kevin Goodchild wedi mynychu'r cyfarfod yn Nolgellau 23.11.16, pan gafwyd cyflwyniadau ar agweddau o ofal iechyd yng Ngogledd Cymru gan swyddogion o Gyngor Iechyd Cymuned â'r Bwrdd Iechyd. Maent yn ceisio datblygu a chyd-drefnu i gael gwell gwasanaeth i'r henoed yn y gymuned, drwy osod system frysbennu mewn lle yn Nolgellau i allu helpu gyda gwasanaethau fel trafnidiaeth, ffisiotherapi, timau iechyd meddwl, a gweithwyr a nyrsys gofal arbenigol.
     **Arriva** - adroddwyd fod Arriva yn sôn am gael gwared â swyddi'r gards ar y trenau lleol i arbed arian.

   - **Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn** - Eleri Williams wedi mynychu'r cyfarfod diwethaf, pan adroddwyd fod y Ffair Dolig a Chyngerdd Ysgol wedi bod yn llwyddiannus, fod cyllid yr ysgol yn edrych yn iach, a'u bod wedi cael adroddiad Estyn bendigedig, gyda 130 o blant yn mynychu'r ysgol. Gwaith wedi cael ei wneud ar y tô dros yr haf ond mae'r tô yn dal i ollwng pan yn bwrw glaw!!

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Dim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall:**
    1. **Coed Nadolig**
       **a)** Diolch i Geraint Micah am drefnu archebu coeden i Roslefain.
       **b)** Llythyr i'w yrru i Emlyn Roberts a theulu Tydfarch, am y goeden gafodd ei rhoi fynny yn Llwyngwril.
       **c)** Hysbyseb i'w roi yn siop y pentref a'r Hysbysfwrdd yn diolch i deulu Tydfarch am y goeden.
       **d)** Llythyr i'w yrru i Geraint Williams, Trydanwr, yn diolch iddo am gysylltu goleuadau'r Coed Nadolig.
       **e)** Trefnu dyddiad i dynnu'r coed i lawr ➞ Dydd Sadwrn 07.01.17.

    2. **Cof Golofn**
       - Wal o amgylch y Cof Golofn angen sylw ➞ Keith Carroll yn cynnig gwneud y gwaith yma.

    3. **Rhwystrau diogelwch rhwng Llwyngwril a Friog**
       - Cyngor Cymuned ar ddeall fod Cyngor Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Network Rail i gwblhau'r gwaith ar y wal ag y rhwystrau diogelwch yma. Mae'r sefyllfa yn peri pryder i aelodau'r Cyngor Cymuned, gan fod mwy o ddifrod wedi cael ei wneud i'r wal yn dilyn damwain yna yn ddiweddar.
         **Penderfyniad** ➞
         **a)** llythyr i'w yrru i Adrian Williams, Cyngor Gwynedd i ofyn pryd fydd y gwaith atgyweirio yn cael ei wneud?
         **b)** llythyr i Network Rail i ofyn beth yw'r diweddaraf ar y sefyllfa o'i safbwynt nhw?

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher - 11.01.2017 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**